

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 12fed Fai 2014

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Medwen Hughes, Marion Bettenev, Karen Pugh, Caerwyn Roberts, Clerk.

Ymddiheuriadau - Jim Boughton, Gareth Parry, Janet Charlton, Elizabeth Roberts.

Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd

Penderfynwyd yn unfrydol i ethol Gareth Wynne yn Gadeirydd a Medwen Hughes yn Is Gadeirydd y Cyngor

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Ebrill 2014

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Dywedodd y clerc nad oedd dim gwybodaeth wedi ei dderbyn gan yreddlu Gogledd Cymru ynglŷn â materion lleol.

[1.1] Neidio o Bont-y-Pair

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.2] Maes Parcio Pont-y-Pair/Consesiwn Parcio

Adroddodd y clerc nad oedd dim gair pellach gan Mr Wilkinson [Cyngor BS Conwy] y clerc i gysylltu gyda'r Cyng. Elisabeth Roberts ynglŷn â'r tyllau ar wyneb y maes parcio.

[1.3] Marchnata ar y Stryd

Nodwyd yn siomedig nad oedd ymateb i gais am ragor o wybodaeth wedi dod i law oddiwrth Mr John Donnelly, y Swyddog Trwyddedu.

[1.4] Gwaith Celf Ffordd yr Orsaf

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.5] Llwybr Cae Llan

Eglurodd y clerc bod cais am waith cynnal a chadw wedi ei wneud gyda'r Cyngor Sir, ond hyd yma nid oedd unrhyw waith wedi ei wneud.

Y Brif Agenda

[1.6] Materion Cynllunio

Adeiladu estyniad 2 lawr, adeiladu garej uwchben, gweithdy a.y.b.

Glên Craig, Betws-y-coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.7] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddosbarthwyd] a wnaed yn ystod Ebrill 2014.

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddosbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Ebrill 2014.

[c] Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol - Nodwyd bod sic am £134.23 heb ei gyflwyno i'r banc ac erbyn hyn, allan o amser. Eglurodd y clerc bod y derbynnydd wedi marw a bod sic am swm cyffelyb eisoes wedi ei basio i'r teulu.

[1.8] Prosiect Pwyntiau Hanes

Penderfynwyd cyfrannu £80.00 tuag at osod cod QR i'w arddangos yn y Rhaeadr Ewynnol.

[1.9] Toiledau Ffordd yr Orsaf/Gwelliannau

Cyfeiriodd y clerc at sylwadau gan Peter Harris [Cyngor BS Conwy] yn esbonio yn groes i wybodaeth lleol, bod yr adeiladwr yn bresennol ar y safle yn arwain i fyny ac yn dilyn gwyliau Banc y Pasg, a bod disgwyl i'r gwaith fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai.

[2] Arwyddion a Hysbysebion

Mynegwyd pryder ynglŷn y nifer o arwyddion/posteri sydd yn cael ei harddangos mewn gwahanol leoliadau yn y pentref. Y clerc i geisio presenoldeb Swyddog Cynllunio, Parc Cenedlaethol Eryri yn y cyfarfod nesaf.

[2.1] Pont Droed Gorsaf Reilffordd Betws-y-Coed

Gan nodi cyflwr y bont, y clerc i dynnu sylw Trenau Arriva i'r mater.

Cadeirydd _____